GAIR I GALL O RAN RHEOLAU CAFFAEL EWROP

Fel Ymgeisydd, Dylech ...	Fel Ymgeisydd, Peidiwch â...
...sicrhau bod gennych gopi o'r meini prawf a ddefnyddir i'ch asesu.	...llunio tendr ar eich pen eich hun. Gofynnwch i un unigolyn o leiaf sydd â phrofiad o dendro, fwrw golwg drosto.
...gwneud yn siŵr bod pob datganiad wedi'i lofnodi, bod yr holl ddogfennau priodol wedi'u cynnwys a'u bod i gyd wedi'u hawdurdodi'n briodol.	...defnyddio nod ffrancio, marciau neu logos postio a allai adnabod eich cwmni. Rhaid i'r broses fod yn rhydd o bob rhagfarn bosib.
...gwneud yn siŵr eich bod yn ateb yr adran ar wybodaeth ychwanegol. Gallai fod yn werth 25% o leiaf o gyfanswm y marciau!	...gadael eich cais tan y funud olaf. Mae ceisiadau hwyr yn cael eu gwrthod, wir i chi!
...darllen y ddogfen Agor Drysau sy'n amlinellu sut y gall BACH'au fod yn rhan o'r broses dendro. Cyrchwch y wefan www.buy4wales.co.uk/PRP/10735.file.dld	...anghofio cynnwys gwybodaeth ynghylch eich cyflwr ariannol, yswiriant priodol, polisi iechyd a diogelwch, geirda busnesau, nodau ansawdd, aelodaeth o gyrff proffesiynol a chymwysterau'r staff.
...gwirio a ganiateir amrywiant (h.y. cynnig tendr amgen yn seiliedig ar senario ychydig yn wahanol). Dylai'r Hysbysiad Cytundeb nodi a dderbynnir cynigion amrywiadol.	...sicrhau bod rhywun ar gael i ofalu am y broses ymgeisio os bydd staff ar wyliau a/neu'n sâl.
...gwerthu eich hun cystal ag y gallwch ar y cais ac argyhoeddi'r prynwr y gallwch wneud y gwaith a'i gyflenwi ar amser.	...tybio bod y sawl sy'n darllen eich tendr yn gwybod unrhyw beth amdanoch. Argyhoeddwch hwy fod gennych y sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith a dwedwch eich hanes!
...mynychu digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' a 'gwibrwydweithio' fel bod pobl yn gwybod pwy ydych, beth y gallwch ei wneud a sut i gysylltu â chi	...anghofio edrych ar Tenders E. Daily, GwerthwchiGymru a'r porth XS change, yn ddyddiol. Cyrchwch www.etenderwales.bravosolutions.co.uk
...sicrhau eich bod yn gallu defnyddio'r rhyngrwyd ac ymateb yn gyflym, er enghraifft i e-bost yn gofyn am wybodaeth a hysbysiadau tendro ar wefan GwerthwchiGymru.	...anghofio cyfeirio at eich 'rhagoriaeth unigryw', er enghraifft eich bod yn arweinydd yn eich maes neu fod gennych arbenigedd staff ardderchog.
...caniatáu 35-40 awr o leiaf i lunio cais am waith.	...esgeuluso sicrhau gyda'ch adrannau cyfreithiol ac ariannol bod gennych yr adnoddau priodol i gyflenwi'r prosiect. Trefnwch y manylion cyfreithiol ac ariannol cyn cychwyn y broses.
...casglu ynghyd gwybodaeth nad ydych fel arfer yn edrych arni o un pen i'r flwyddyn i'r llall. Llunio 'ffeil ceisiadau' fel bo popeth yn cael ei gadw gyda'i gilydd.	...anghofio ei bod yn bosib y bydd oedi yn dyfarnu'r tendr ond y bydd gofyn er hynny i chi ddechrau ar y dyddiad cychwyn gwreiddiol.
...gwneud yn siŵr eich bod yn hollol glir ynghylch pwy yw'r sefydliad arwain a bod gennych Gytundebau Lefel Gwasanaeth priodol gyda'ch partneriaid.	...darllen y dogfennau tendro yn rhy gyflym. Deliwch â hwy fel arholiad gan sicrhau eich bod yn ateb y cwestiynau a ofynnir ac nid y rhai y dymunwch eu hateb.
...sylweddoli y byddwch, fel y sefydliad arwain, yn gyfreithiol gyfrifol am gyflenwi'r prosiect a'r holl ganlyniadau cysylltiedig.	...anghofio bod Tîm Ewrop y Cyngor Sir wrth law i'ch cynorthwyo. http://wwec.org.uk/conv_convergence_frame_1.htm
...gwneud yn siŵr bod manylion eich cwmni ar gael ar wefan Alito Procurement sydd ar gael i nifer o awdurdodau lleol yn Ne Cymru www.appswales.alito.co.uk/	

GAIR I GALL O RAN RHEOLAU CAFFAEL EWROP

Fel Cleient, Dylech…	Fel Cleient, Peidiwch â …
… sicrhau bod gennych dimau gwahanol ar gyfer ysgrifennu'r cais a gwerthuso'r tendr. Bydd hyn yn eich gwarchod rhag honiadau posib o ragfarn, yn enwedig os ydych yn sefydliad mawr a allai fod yn ymwneud â thendro, ymgeisio a gwerthuso.	…thorri cyfarwyddebau'r UE ar dendro. Cofiwch fod rheolau'r UE yn gymwys cyn gynted ag y bydd tendr yn cael ei hysbysebu!
…sicrhau bod pob cyflenwr yn gallu cael mynediad i unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i darparu.	…defnyddio telerau ac amodau y cyflenwyr eu hunain pan fo'n bosib, gallent gynnwys gymalau cudd!
…ystyried creu Holiadur Cyn-gymhwyso i sicrhau fod gan gyflenwyr y medr a'r gallu i gyflenwi eich prosiect.	…gofyn cwestiynau penodol i gyflenwyr posib ynghylch pris gan y gallai hyn arwain at honiadau o ragfarn.
…defnyddio'r system rheoli contractau, Alitio, sy'n rhoi gwybodaeth i chi ynghylch perfformiad cyflenwyr. www.appswales.alito.co.uk/	…gogwyddo'r tendr i fod ar gael i gyflenwyr lleol yn unig. Rhaid iddo fod yn agored ac ar gael i'w gyflenwi gan unrhyw gwmni sydd wedi'i leoli yn yr Undeb Ewropeaidd.
…holi cyflenwyr cyn cyflwyno'r tendr i sicrhau ei fod yn deg a danfonadwy.	…rhoi rhy ychydig o amser i bobl i ymateb i dendr. Fel arfer 28 diwrnod gwaith yw'r cyfnod lleiaf a roddir a hyd at 56 wythnos ar gyfer contractau cymhleth iawn.
…sicrhau eich bod yn agored a thryloyw a'ch bod wedi gwerthuso unrhyw dendr yn rhesymegol.	…defnyddio tendr agored bob tro. Gellir cael tendrau cyfyngedig, cystadleuol a charlam. Ystyriwch pa un fyddai orau ar gyfer eich anghenion chi!
…cofio bod gennych hawl i gynnwys cymalau budd cymdeithasol synhwyrol a phennu meini prawf 'gwyrdd' yn eich tendr.	…anghofio y gallwch ddefnyddio ystod o feini prawf gwerthuso i gael y dyfynbris sy'n rhoi'r gwerth 'gorau'. Gallant gynnwys ffactorau megis ansawdd, manylebau technegol, effaith amgylcheddol, rheolaeth a phrofiad blaenorol.
…atgoffa eich hun y dylid ysgrifennu a chofnodi unrhyw eglurhad a roddir ar ôl tendro.	…cael eich cynnwys mewn trafodion ar ôl tendro gan y gallech gael eich cyhuddo o ragfarn ac ymddwyn yn amhriodol. Os yw ymgeisydd wedi rhoi pris anghywir i chi fel arfer byddant yn ei anrhydeddu neu'n tynnu allan o'r broses.
…siarad â'r perchennog cyfrifol uwch, rheolwr a staff y prosiect fydd yn cyflenwi'r tendr er dod i adnabod y sefydliad. Dylid cofnodi hyn.	…anghofio cynnig adborth i bawb ar eu tendr. Yn yr hirdymor, bydd hyn yn eich helpu i adeiladu cronfa well o gleientiaid, boed hwy wedi llwyddo ai peidio.
…ceisio sicrhau bod cyfiawnhad cyfreithiol i bob penderfyniad a wnewch ac y gellir ei amddiffyn mewn llys barn.	…siarad ag unrhyw noddwr posib ynghylch manylion tendr ar ôl iddo gael ei hysbysebu. Byddai'n rhaid rhannu unrhyw eglurhad ynghylch y tendr gyda'r holl gyflenwyr posib sy'n rhan o'r broses. Gellir gwneud drwy ddiweddariad ar e-bost.